# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod arbennig o’r Cyngor Sir a gynhaliwyd trwy Gynhadledd Fideo, Dydd Iau, 22 Gorffennaf 2021 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Meirick Davies, Hugh Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Hugh Irving, Alan James (Cadeirydd), Brian Jones, Pat Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Christine Marston (Is-Gadeirydd), Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Peter Scott, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, David Williams, Eryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Rheolwr Gwasanaethau AD (CR a LD), Arbenigwr Datblygu Cymdeithas (FC) a Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Joan Butterfield, Gareth Davies, Alan Hughes ac Anton Sampson.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD - Yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bod yr eitem ganlynol o fusnes yn cael ei hystyried, oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu (fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 ac 14 o Ran 4, Atodlen 12A y Ddeddf).***

## 3 PENODI PRIF WEITHREDWR

Bu i Arweinydd y Cyngor a swyddogion AD adrodd ar y broses recriwtio a gynhaliwyd a rhoddwyd manylion y broses asesu a'r meini prawf a ddefnyddir gan y Panel Penodiadau Arbennig i sicrhau mai dim ond ymgeiswyr a allai fod yn addas i'w penodi a fyddai'n cael gwahoddiad i fynychu cyfarfod y Cyngor heddiw.

Rhoddodd yr ymgeisydd gyflwyniad i'r Cyngor ac ymatebodd i gwestiynau gan yr aelodau. Wedi i’r ymgeisydd adael y cyfarfod, trafododd yr aelodau’r cyflwyniad a'r ymatebion i gwestiynau.

***PENDERFYNWYD - penodi Graham Boase i swydd Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych.***